

Detholiad o Drafodaeth Tŷ'r Cyffredin y DU

Ffynhonnell: Hansard, Racial, Religious and Political Minorities, HC Deb 21 Tachwedd 1938 cyf 341 cc1428-83.

Priodoliad: Yn cynnwys gwybodaeth Seneddol a drwyddedwyd o dan y Drwydded Senedd Agored f3.0.

Ar 21 Tachwedd 1938, bu Tŷ'r Cyffredin yn y DU yn trafod a fyddai Prydain yn derbyn rhagor o ffoaduriaid Iddewig o'r Almaen, yn dilyn trais Pogrom mis Tachwedd ar 9-10 Tachwedd 1938 (Kristallnacht). Mae'r canlynol yn ddyfyniadau o ddwy araith allweddol gan Aelodau Seneddol (ASau) yn ystod y drafodaeth hon.

Daw'r dyfyniadau cyntaf o araith Mr Philip Noel-Baker (AS Derby), a ddadleuodd o blaid lleddfu dioddefaint yr Iddewon ac eraill oedd yn cael eu herlid gan yr Almaen Natsiaidd. Roedd ei araith yn cynnwys adroddiadau am y trais a'r dinistr a ddigwyddodd yn ystod Pogrom mis Tachwedd.

Mr Philip Noel-Baker:

Erfyniaf argymhell, "Fod y Tŷ hwn yn nodi gyda phryder dwys y driniaeth warthus a ddioddefir gan rai lleiafrifoedd hiliol, crefyddol a gwleidyddol yn Ewrop, ac, o ystyried difrifoldeb cynyddol y broblem ffoaduriaid, ei fod yn croesawu ymdrech gydunol ar unwaith ymhlith y cenhedloedd, gan gynnwys Unol Daleithiau America, i sicrhau polisi cyffredin."

[...]

Dyma grynodedd cyntaf y "Daily Telegraph" o'r hyn a ddigwyddodd: "Roedd holl boblogaeth Iddewig yr Almaen yn destun arswyd ddoe. Dechreuodd y pogroms ar yr un pryd ledled yr Almaen. Ni wnaeth yr heddlu unrhyw ymgais i atal ffyrnigrwydd y dorf. Llogwyd bron pob synagog yn y wlad i'r llawr. Prin fod siop Iddewig wedi dianc rhag cael ei dinistrio. Digwyddodd lladrata ar raddfa fawr. Roedd rhannau o ardal ffasiynol Berlin yn anhrefn llwyr. Roedd Iddewon o bob oed, o'r ddau ryw, yn cael eu curo ar y strydoedd ac yn eu cartrefi. Cafodd nifer eu lunsio. Mae cred bod gofalwr synagog wedi cael ei losgi, gyda'i deulu, i farwolaeth."

[...]

Mae newyddiadurwyr o Brydain yn unfrydol yn eu tystiolaeth nad oedd yr ymosodiadau yn ddigymell, ond, fel y dywedodd y "Times", mae'r holl arwyddion yn cyfeirio at gyfeiriad canolog. Ym mhobman roedd yr heddlu'n caniatáu iddyn nhw barhau.

[...]

Pe bai'r gweithredoedd hyn wedi bod yn weithredoedd dros ben llestri gan y mob, efallai y byddai disgwyl i'r Llywodraeth eu condemnio, i gosbi'r troseddwr ac i dalu iawndal i'r dioddefwyr. Nid dyna ddigwyddodd. Mae gwerth miliynau o bunnoedd o ddifrod wedi'i wneud, ac mae'r Llywodraeth [Natsiaidd] wedi gorchymyn



Detholiad o Drafodaeth Tŷ'r Cyffredin y DU

i'r Iddewon dalu dirwy gyfunol o £84,000,000 ac atgyweirio'r difrod a wnaed i adeiladau eu busnesau ar eu traul eu hunain. Roedd hynny'n cyd-fynd â gorchymyn i'r cwmnïau yswiriant beidio â thalu'r hyn oedd yn ddyledus iddynt.

Trwy orchymyn arall, ar ôl 1 Ionawr, penderfynwyd na chaiff unrhyw Iddew gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd economaidd o unrhyw fath. Yn y cyfamser, ni chaniateir iddynt agor eu siopau eu hunain na hyd yn oed fynd i siopau Ariaid.¹

Daw'r dyfyniadau nesaf o araith yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref, Syr Samuel Hoare, a gadarnhaodd ymateb y llywodraeth i'r Pogrom ym mis Tachwedd.

Sir Samuel Hoare:

Gadewch imi ddechrau drwy atgoffa'r Tŷ o rai o'r anawsterau. Yn y wlad hon, rydym ni'n gymuned ddiwydiannol, boblog iawn ac mae nifer fawr iawn o bobl yn ddi-waith ar hyn o bryd. Mae cystadleuaeth yn frwd iawn gyda gwledydd tramor, ac mae'n anodd i lawer o'n cyd-wladwyr wneud eu bywoliaeth o gwbl a chadw eu diwydiannau a'u busnesau i fynd. Mae'n eithaf amlwg bod yna gerrynt gwaelodol o amheuaeth a phryder, yn gam neu'n gymwys, am fewnfudo estron ar unrhyw raddfa fawr. Mae'n ffaith, ac mae'n well inni wynebu'r ffaith yn blwmp ac yn blaen, o dan yr wyneb—rwy'n gwybod o'm profiad dyddiol fy hun yn y Swyddfa Gartref—

[...]

¹ Hansard, *Racial, Religious and Political Minorities*, HC Deb 21 November 1938 vol 341 cc1428-30 <https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1938/nov/21/racial-religious-and-political-minorities#column_1428> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

² Mae'n debyg bod Samuel Hoare yn cyfeirio yma at y gefnogaeth i Undeb Ffasgwyr Prydain (BUF). Roedd y BUF yn blaid wleidyddol ffasgaidd, gwrth-semitaidd oedd o blaid y Natsïaidd a sefydlwyd ym 1932 gan Oswald Mosley. Ar eu hanterth yng nghanol y 1930au roedd ganddynt 40,000 o bobl yn aelodau. Lleihaodd poblogrwydd y BUF yn dilyn sawl gwrthdaro treisgar gyda'r heddlu ym 1936 (yn arbennig ym Mrwydr Cable Street yn Llundain), cyn i'r sefydliad gael ei wahardd yn swyddogol ym 1940. Ffynhonnell: The Wiener Holocaust Library, *10 Points of Fascist Policy: Fascism Explained* <<https://wienerholocaustlibrary.org/object/01373/>> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

³ Erbyn dechrau 1938, dim ond tua 10,000 o ffoaduriaid Iddewig oedd ym Mhrydain. Mewn rhan ddiweddarach o araith Samuel Hoare, dywedodd, "mae'r wybodaeth sydd ar gael i mi yn dangos bod [y ffoaduriaid Iddewig hyn] wedi bod yn allweddol wrth gyflogi 15,000 o weithwyr Prydeinig yn y diwydiannau y maent wedi'u sefydlu, heb, cyn belled ag y gallaf gasglu, unrhyw niwed i gyflogaeth Prydain nac i weithwyr Prydeinig.", c1469.

Detholiad o Drafodaeth Tŷ'r Cyffredin y DU

Rwy'n gwybod o fy mhrofiad fy hun fod yna fudiad gwrth-Iddewig pendant yn cael ei sefydlu.² [...] Mae'n rhaid i mi fod yn ofalus i osgoi unrhyw beth yn ymwneud â mewnfudo torfol a fyddai, yn fy marn i, yn anochel yn arwain at dwf mudiad yr ydym i gyd yn dymuno ei weld yn cael ei atal.³ Mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni gadw golwg ar achosion unigol o fewnfudwyr.

[...]

Rydym yn ceisio yn y Swyddfa Gartref i weithio mewn cydweithrediad agos â'r sefydliadau amrywiol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broblem ffoaduriaid. Y mae gennym, er enghraifft, gymorth amhrisiadwy gan yr hyn a elwir y Cyd-bwyllgor, pwyllgor lle ceir cynrychiolaeth gan y prif sefydliadau Iddewig, y Crynwyr, a sefydliadau'r Eglwysi Cristionogol.

[...]

Rwy'n meddwl y bydd nifer fawr o blant y gallwn ymdrin â hwy, ar yr amod eu bod yn cael eu noddi gan gyrff cyfrifol ac unigolion cyfrifol.

[...]

Dyweddodd y Pwyllgor Cydlynny a'r sefydliadau eraill wrthyf y byddent yn barod i ddod â'r holl blant y gellid gwarantu eu cynhaliaeth drosodd yma, naill ai trwy eu harian nhw neu gan unigolion hael, ac mai'r cyfan a fydd ei angen ar gyfer, yn ôl pob tebyg, fydd i'r Swyddfa Gartref roi'r fisas angenrheidiol ac i hwyluso eu mynediad i'r wlad hon. Dywedais wrth yr Arglwydd Samuel, heb oedi am eiliad, y byddai'r Swyddfa Gartref yn sicr yn barod i ddarparu cyfleusterau o'r fath, a mentraf heno i achub ar y cyfle i gymeradwyo'r ymdrech hon i'm cydwladwyr yn gyffredinol.⁴

⁴ Hansard, *Racial, Religious and Political Minorities*, HC Deb 21 November 1938 vol 341 cc1468-74 <https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1938/nov/21/racial-religious-and-political-minorities#column_1428> [cyrchwyd 21 Mai 2022].